# Pwyllor Menter a Dysgu

**EL(3) 03-09 (p3) : 29 Ionawr 2009**

## Pwyllgor Menter a Dysgu

## 29 Ionawr 2009

### Maniffesto Drafft Plismona'r Ffyrdd

### Pwrpas

Caiff y papur hwn ei gyflwyno er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor gydag ystyried rhinweddau Maniffesto Drafft Plismona'r Ffyrdd. Mae'r dystiolaeth a ddarperir wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd y gallai Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ddarparu cymorth a chydweithrediad posibl o ran gwella'r amodau cyfredol ar ffyrdd Cymru.

### Cefndir

Ers mabwysiadu Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 mae dyletswydd statudol wedi'i osod ar bob Gwasanaeth Tân ac Achub i achub pobl os bydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol ag Adran 21 o Ddeddf 2004, wedi paratoi Fframwaith Cenedlaethol yn amlinellu ei blaenoriaethau, amcanion a disgwyliadau oddi wrth Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a sut y bydd yn eu cefnogi o ran eu cyflawni.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol diweddaraf (2008-2011) yn cydnabod yr effaith ddinistriol ar fywydau pobl sydd ynghlwm â digwyddiadau difrifol a'r llwyth gwaith sylweddol y mae gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ei osod ar Wasanaethau Tân ac Achub Cymru. Mae hefyd yn cydnabod y gellir cyflawni lleihad o ran anafiadau a marwolaethau ar y ffyrdd drwy weithio'n gydweithredol yn unig.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn adnabod rhanddeiliaid allweddol ym maes diogelwch ar y ffyrdd ac yn rhoi canllawiau eglur bod disgwyl i Awdurdodau Tân ac Achub i weithio mewn partneriaeth er mwyn lleihau anafiadau a marwolaethau ar y ffyrdd ar draws Cymru.

O ystyried y dyletswyddau statudol hyn, disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a thraddodiadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, mae'n amlwg bod yna feysydd o fewn y Maniffesto Plismona'r Ffyrdd a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar Wasanaethau Tân ac Achub Cymru.

Bwriad yr adrannau canlynol yw cynghori'r pwyllgor ynghylch gweithgaredd cyfredol a, ble mae'n briodol, amlinellu'n fras y cyfleoedd ar gyfer gwelliant o fewn arferion a gweithdrefnau cyfredol.

Bydd y pwyllgor yn ymwybodol o gynnig y Maniffesto i ddefnyddio chwe ardal dactegol. Fel partner bodlon cred Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru bod pedwar ardal dactegol ble y gallai ein hymglymiad a'n cymorth fod yn werthfawr o ran creu gwelliannau sylweddol o ran diogelwch defnyddwyr y ffyrdd ac effeithlonrwydd gweithredol traffig yn symud ar hyd y rhwydwaith ffyrdd.

Dyma'r ardaloedd:-

### Gorfodi'r Gyfraith

Hwyrach mai addysg yw'r cam cyntaf o ran gorfodi. Mae mentrau diogelwch ar y ffyrdd a hyrwyddwyd mewn partneriaeth ag Awdurdodau'r Heddlu a Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi dangos fod newid ymddygiad ac agwedd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus drwy godi ymwybyddiaeth gyrwyr o ran canlyniadau ymddygiad anaddas wrth yrru.

Gan weithio drwy grwpiau sydd eisoes wedi'u sefydlu, megis Partneriaethau Camerâu Diogelwch a Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd Awdurdodau Lleol, gall staff Gwasanaethau Tân ac Achub ddarparu gwasanaeth ieuenctid, gwasanaeth plant a swyddogion partneriaeth ymroddedig i gefnogi nodau'r Maniffesto. Gall y timau ymroddedig a hynod o broffesiynol hyn gael mynediad at grwpiau sydd mewn perygl mawr er mwyn hyrwyddo rhaglenni addysgiadol yn ychwanegol i, neu yn hytrach nag erlyn.

Mae trosedd cerbydau yn fater sy'n cael effaith niweidiol ar ein holl gymunedau ac mae'n bryder mawr i grwpiau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Awdurdodau Lleol. Mae'n achosi anghyfleustra, difrod i'r amgylchedd, anafiadau personol ac mewn rhai achosion trasig, pobl yn colli eu bywydau.

Er mwyn cyfrannu tuag at ddatrys mater o'r fath mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi datblygu mentrau megis Diwrnod Ymwybyddiaeth Trosedd Ceir. Mae'r digwyddiadau partneriaethau aml-asiantaeth hyn wedi'u hanelu at droseddwyr gyda hanes o drosedd cerbydau. Mae gweithio mewn partneriaeth yn defnyddio cryfderau pob asiantaeth sy'n cymryd rhan.

Byddai cydweithio o dan ganllawiau strategol Maniffesto Plismona'r Ffyrdd Cyffredinol yn ychwanegu fframwaith cydlynu, y mae mawr ei angen, y gallai pob gweithiwr proffesiynol ym maes diogelwch ar y ffyrdd weithio o'i fewn er lles y bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Chymru.

## Anafiadau a Marwolaethau wrth Achub

Mae perygl ar y ffordd yn dibynnu ar sawl ffactor yn cynnwys y pellter sy'n cael ei deithio, lefel y traffig, ymddygiad gyrwyr a'r adnoddau sydd ar gael i ddiogelu defnyddwyr y ffyrdd rhag anaf. Tra bod gan y Gwasanaethau Tân ac Achub braidd ddim rheolaeth dros bellter teithio a lefel y traffig, rydym wedi diffinio'n eglur iawn ein cyfrifoldebau, ymrwymiadau a'n sgiliau o ran atal, addysgu, gofalu am bobl wedi'u hanafu a'r rôl draddodiadol o ryddhau pobl sydd wedi'u dal.

Mae gan addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd eu lle ochr yn ochr â mesurau tymor byr, ond maent yn dod yn llawer mwy pwysig yn yr hirdymor. Mae ein cefnogaeth barhaus tuag at asiantaethau diogelwch ar y ffyrdd eraill yn cyd-fynd â'n nifer o ymgyrchoedd addysgiadol ac yn hyrwyddo dyfeisgarwch i archwilio mentrau newydd.

Drwy rannu gwybodaeth sy'n cael ei chofnodi am ddigwyddiadau gyda phartneriaid, gellir targedu ymgyrchoedd addysgiadol a gwell ymateb gweithredol yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf ac at grwpiau o ddefnyddwyr sydd angen camau ymyrraeth gyda ffocws pendant.

Mae gan Faniffesto Plismona'r Ffyrdd y potensial i ddarparu strwythur i'r holl asiantaethau sy'n cyfrannu i weithio oddi tanodd tuag at yr un nod. Y nod hwnnw yw lleihau'r nifer o wrthdrawiadau a difrifoldeb y gwrthdrawiadau yn ogystal â chynyddu cyfradd goroesi'r rhai sydd ynghlwm â'r gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd mwyaf difrifol.

Credaf fod rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud y cyfan y gall er mwyn cymell grwpiau o randdeiliaid allweddol, yn enwedig y rhai yn y sector cyhoeddus, i ymgysylltu yn llawn gyda gwaith y nifer o is-grwpiau a fydd yn cael eu sefydlu er mwyn chwilio am welliannau yn yr ardaloedd sydd wedi'u hamlinellu yn chwe thema allweddol y Maniffesto.

## Mynd i'r afael â defnydd gwrthgymdeithasol o'r ffyrdd

Mae defnydd gwrthgymdeithasol o'r ffyrdd wedi'i hyrwyddo'n bennaf ymysg defnyddwyr y ffyrdd sy'n cymryd risgiau mawr ac sy'n anoddach i ddylanwadu arnynt. Drwy ddefnyddio technegau ymgysylltu effeithiol, a phersonél cymwysedig addas, cred Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru y gallwn chwarae ein rhan o ran cael mynediad at, ac addysgu, grwpiau ac unigolion ynghylch canlyniadau eu hymddygiad a'r effaith y mae'n cael ar gymunedau lleol.

Yn debyg iawn i'r hyn sydd wedi'i amlygu yn adran 1.3 uchod mae canlyniadau ymddygiad o'r fath wrth yrru yn eglur. Mae'r math hwn o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater sy'n cael effaith niweidiol ar ein cymunedau ac mae'n bryder mawr i Grwpiau Partneriaeth Awdurdodau Lleol. Mae'n achosi anghyfleustra, difrod, anafiadau ac mewn rhai achosion trasig, pobl yn colli eu bywydau.

Mae datblygu partneriaethau gydag ystod o arbenigwyr ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd yn rhoi cyfle i'r holl asiantaethau i gyfuno adnoddau a mynd i'r afael â beth y cred llawer i fod yn broblem gynyddol o fewn ein cymunedau. Credaf fod cyfle cyffrous o'n blaenau i bawb sydd ynghlwm â'r agenda Diogelwch ar y Ffyrdd i uno o dan Faniffesto Plismona'r Ffyrdd.

## Lleihau Tagfeydd ac Oedi

Yn 2007 ymatebodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i ychydig dros 3000 o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd. O ganlyniad i'r gwrthdrawiadau cafodd tua 600 o bobl eu rhyddhau o'u cerbydau.

Er ein dymuniad i ysgafnhau ychydig ar y tagfeydd sy'n cael eu hachosi gan y digwyddiadau mwyaf difrifol hyn, ni ddylid anghofio fod pob digwyddiad yn creu sefyllfa anodd a pheryglus ar rai adegau i'r bobl sy'n ymateb mewn capasiti gweithredol, yn ogystal ag ychwanegu peryglon pellach i'r cyhoedd sy'n teithio.

Ni ddylid anghofio mai'r flaenoriaeth sy'n bwysicach na dim arall yw achub bywydau'r bobl sydd ynghlwm â'r gwrthdrawiadau hyn a diogelu'r gweithwyr sy'n ymateb mewn argyfwng. Er hynny mae potensial i gyflawni holl nodau dyngarol y gwasanaethau achub a dychwelyd y rhwydwaith ffyrdd i gyflwr sy'n llifo'n rhydd os byddai pob asiantaeth ymateb yn adolygu eu harferion a'u gweithdrefnau gweithredol yn rheolaidd ac yn edrych ar y digwyddiad o safbwynt cyfannol.

Er bod yr holl wasanaethau golau glas yn gweithredu o dan ganllaw arfer da sefydledig Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu o ran cydlynu a rheoli digwyddiadau mewn argyfwng ar y rhwydwaith ffyrdd, mae potensial i roi gwelliannau pellach ar waith yng Nghymru.

Yn 2007 roedd dros 12,270 o wrthdrawiadau ar y rhwydwaith ffyrdd, a phob un ohonynt yn cael rhyw fath o effaith ar nwyddau a phobl yn symud yn effeithlon. Mae oedi yn effeithio'n drwm ar economi Cymru a dylai'r holl randdeiliaid weithio tuag at leihau'r effaith hwn, byddai'r Maniffesto yn fforwm delfrydol ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn.

Er mwyn cymryd mantais ar y dull partneriaeth sydd wedi'i fabwysiadu yng Nghymru, ac sydd eisoes wedi'i sefydlu'n dda, mae angen i bawb sy'n ymateb mewn argyfwng arddangos awydd ac ymroddiad tuag at gymryd rhan mewn adolygiad sylfaenol o arferion cyfredol wrth ddelio â Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd. Dylai'r adolygiad hwn, yn fy marn i, gael ei gynnal o fewn fframwaith y Maniffesto Plismona'r Ffyrdd.

## Crynodeb/Argymelliadau

I grynhoi, rwy'n ystyried y byddai mabwysiadu Maniffesto Plismona'r Ffyrdd yn gyfle i ddod a gwell synergedd i faterion diogelwch ar y ffyrdd ac effeithlonrwydd y rhwydwaith ffyrdd yma yng Nghymru.

Yng Nghymru, rydym yn wynebu'r her o wneud ein seilwaith ffyrdd yn ddiogel ac yn effeithlon, ac eto does dim fforwm gwybodaeth

diogelwch ar y ffyrdd yn bodoli i roi cefnogaeth i wir welliannau o fewn darpariaeth y gwasanaeth.

Mae Cymru yn ffodus i gael gwasanaethau ystod eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ym maes Diogelwch ar y Ffyrdd, â phob un ohonynt â brwdfrydedd ac ymrwymiad enfawr tuag at wella diogelwch ar y ffyrdd ac effeithiolrwydd trafnidiaeth. Mae Maniffesto Plismona'r Ffyrdd yn darparu cyfle i ddod â'r holl sefydliadau o'r fath at ei gilydd o dan fframwaith cenedlaethol, y mae mawr ei angen, ble y gall pawb gyfrannu tuag at gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth ar y ffyrdd sy'n ddiogel ac yn effeithlon.

**Kevin Barry**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân Dros Dro**
**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**